# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Hydref 2017

Amser: 14.01 - 16.46

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4349

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Peter Curran, Sports Wales<br>Suzy Davies AC, Comisiynydd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid<br>Sarah Powell, Chwaraeon Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Dosbarth Gogledd Cymru<br>Matthew Coe<br>Steve Wyndham |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Helen Jones (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 O ran y llythyr ar arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion, cytunodd y Pwyllgor y byddai angen eglurhad pellach, yn enwedig ar yr amserlen ar gyfer gweithredu'r mentrau. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a chytunwyd i drefnu sesiwn dystiolaeth cyn diwedd y tymor.

### 2.1 Arlwyo mewn Ysbytai a Maeth Cleifion: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (29 Medi 2017)

### 2.2 Adroddiad Rheoli Grantiau Llywodraeth Cymru: Adroddiad Blynyddol Interim 2016-17

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Chwaraeon Cymru

3.1 Nododd y Cadeirydd gydymdeimlad y Pwyllgor â Chwaraeon Cymru yn dilyn y ddamwain angheuol yn cynnwys Paul Garrett.

3.2 Bu'r Aelodau'n craffu ar Sarah Powell, Prif Weithredwr a Peter Curran, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Chwaraeon Cymru ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17.

3.3 Cytunodd Sarah Powell i anfon rhagor o fanylion ar faint o fuddsoddiad y mae'r Rhaglenni 5 x 60 a Champau'r Ddraig wedi ei dderbyn ynghyd â'r dull o werthuso effeithiolrwydd y rhaglenni hyn ynghyd â'r set olaf o ddata gwerthuso.

## 4 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Comisiwn y Cynulliad

4.1 Bu'r Aelodau'n craffu ar Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17.

4.2 Cytunodd Manon Antoniazzi i anfon copi o'r Adroddiad Adolygu Capasiti i'r Pwyllgor, y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Rhaglen Waith: Senedd@Delyn

7.1 Trafododd yr Aelodau y posibilrwydd o gymryd rhan yn yr wythnos Senedd@Delyn ond yn anffodus, oherwydd bod gan y mwyafrif ymrwymiadau blaenorol, ni fydd y Pwyllgor yn gallu cymryd rhan.